Cafodd Sarah Lowe, Cynorthwydd Gwybodaeth CWWYS, y dasg o ymchwilio ac ysgrifennu hanes CWWYS o'r cofnodion hyn a dogfennau eraill, gan arwain at gyhoeddi 'O'r Gynhadledd Sefydlog i CWWYS: 60 Mlynedd o'r Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol yng Nghymru' yn 2007. Mae'r cyhoeddiad yn dangos, er gwaethaf llawer o newidiadau a heriau, fod gan y sector ieuentid gwirfoddol, sydd wedi'i wreiddio yng nghymunedau Cymru, bresenoldeb cryf a pharhaus a hwyluswyd trwy ei gydweithio drwy CWWYS.

Pontio, partneriaeth a chyfranogiad yw'r tair thema sy'n disgrifio orau'r cyfnod pan oeddwn yn Brif Weithredwr CWWYS rhwng 2002-09. Symudodd CWWYS o gael ei gefnogi drwy gytundeb lefel gwasanaeth gan Gyngor Ieuentid Cymru i fod yn sefydliad a oedd yn cael cyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (fel y'i gelwid bryd hynny), a'i staff a'i swyddfa ei hun ydeilad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Bu swyddogion CWWYS, y Pwyllgor Gwaith a'r aelodau'n gweithio'n galed i ailsefydlu swyddogaeth a phroffil annibynnol CWWYS, ehangu ei aelodaeth, a chyflawni'r holl ofynion angenrheidiol i gynrychioli'r sector yn y meysydd polisi ehangach.

Aeth pymtheng mlynedd arall heibio ers i ni ymchwilio a chyhoeddi hanes 60 mlynedd CWWYS. Mae dathlu'r 75 mlwyddiant yn dangos natur arwyddocaol a pharhaus y sector ieuentid gwirfoddol a'i gydweithrediad â'r holl bartneriaid er budd pobl ifanc a'u cymunedau. Mae CWWYS yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gydlynu a datblygu gwaith ieuentid yng Nghymru ac mae mwy o amrywiaeth o sefydliadau yn aelodau. Mae nodi'r penblwyddi mawr hyn yn rhoi cyfleoedd pwysig i adolygu hanes CWWYS, mesur cyflawniadau ei orffennol ac edrych i'r dyfodol yn hyderus.

Veronica Wilson – Cyn Brif Weithredwr CWWYS
rhwng 2002 – 2009



1977 ● Yn 1977 gwahoddwyd CWWYS a'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cenedlaethol (NCVYS) i benodi un person ifanc yr un i eistedd ar gorff newydd Fforwm Gwasanaethau Ieuentid Cymru a Lloegr.

Sefydlwyd egwyddorion ac maent yn parhau i fod yn berthnasol heddiw, gan gynnwys:

Cyfnewid gwybodaeth a chyfleoedd

Ehangu gorwelion gwaith ieuentid gwirfoddol a chynnwys pobl ifanc mewn pethau y tu allan i'w sefydliadau eu hunain

Annog cyfranogiad ieuentid

- 1977** ● Er mwyn cyflawni nodau o'r fath cynhyrchodd CWVYS gyfeiriadur, a oedd ar gael yn gyhoeddus o gyfeiriadau gwasanaethau ieuentid: grwpiau gwirfoddol a chymunedol, canolfannau preswyl ac ati. Derbyniodd gyllid yn 1977 ac fe'i lluniwyd a'i ddsbarthu yn 1980.
- 1979** ● Ym 1979 bu newid yn y cyfrifoldeb am grantiau, a drosglwyddwyd o'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth yn San Steffan i'r Swyddfa Gymreig.
- 1984** ● 1984 Adroddiad AEM o'r enw "Darpariaeth Gwasanaeth Ieuentid yng Nghymru". Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn fel gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ieuentid yng Nghymru a thynnodd sylw at rai materion sydd angen eu hystyried i helpu'r Gwasanaeth Ieuentid i wireddu ei botensial. Dywedodd yr adroddiad efallai fod CWVYS yn ceisio gor-gyflawni fel mudiad gwirfoddol a'i fod mewn perygl o ddatgysylltu oddi wrth y rhai "ar lawr gwlad": "Mae angen i'r Cyngor fod yn wylidwrus nad yw bodolaeth corff hwyluso o'r fath yn arwain at ragdybiaethau gwyrngam ynghylch cydweithredu pan, ar lefelau eraill, bod y duedd i fudiadau gwirfoddol dorri eu cwys eu hunain yn parhau" (Adroddiad AEM ar Ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuentid yng Nghymru 1984).
- 1985** ● Yn 1985 ehangodd CWVYS ei weithgarwch ymhellach trwy ddod yn adran ysgrifenyddol i Bwyllgor Cenedlaethol Cymru'r Blwyddyn Ieuentid Ryngwladol, gan ddarparu deunydd i sicrhau bod Cymru a mudiadau gwirfoddol yn benodol yn ymwybodol o'r Flwyddyn Ieuentid ac yn cyfrannu ati.



Mae fy ymwneud â CWVYS wedi para dros hanner ei fodolaeth 75 mlynedd. Mae wedi bod yn dipyn o reid roller coaster, perthynas cariad-casineb, er gyda llawer mwy o gariad na chasineb. Wrth i fy nhaith gwaith ieuentid fy hun yng Nghymru ddatblygu, felly hefyd taith CWVYS ei hun. Rydym wedi rhannu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau, er nid bob amser ar yr un pryd! Rydym wedi cael cydweithio gwych ac ambell i wrthdaro, gobeithio bob amser wedi'i hangori yn yr un gwerthoedd ac ymrwymiad i waith ieuentid, yn enwedig rôl a chyfraniad y sector gwirfoddol, ond nid bob amser wedi'i seilio ar yr un safbwyntiau!

1985 oedd Blwyddyn Ieuentid Ryngwladol – ar gyfer cyfranogiad, heddwch a datblygiad. Sicrhaodd CWVYS gyllid dan faner IYY ar gyfer prosiect cyfranogiad ieuentid yn mynd i'r afael â HIV a chamddefnyddio sylweddau. Cysylltwyd â mi i fod yn gadeirydd Cyswllt Ieuentid Cymru. Roedd yn arloesol ac yn gyfranogol mewn sawl ffordd. Veronica Wilson (Prif Weithredwr CWVYS yn ddiweddarach o lawer) oedd y Cyfarwyddwr.

Fe gyhoeddom Cymryd Rhan: pobl ifanc, cyfranogiad a chamddeffnyddio sylweddau. Roedd y bwrdd/pwyllgor yn cynnwys pedwar oedolyn a phedwar person ifanc – ymarferiad gwirioneddol yn yr hyn y daeth Cyngor Ewrop i'w alw'n 'gydreoli'. Roedd Cyswllt Ieuentid Cymru yn sicr yn un o'r rhai cyntaf yn y byd i fabwysiadu'r agwedd hon at waith ieuentid. Roedd y pedwar oedolyn yn ddau o waith ieuentid (Alan Higgins a Dave Allen) a dau o'r maes cyffuriau ac alcohol (Dick Pates a Roger Duncan). Un o aelodau ifanc y pwyllgor oedd Sharon Lovell (aelod o Bwyllgor Gwaith CWVYS yn ddiweddarach, aelod o'r Bwrdd Gwaith Ieuentid Dros Dro ac yna, wrth i mi ysgrifennu, Cadeirydd newydd Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuentid). Roedd yn rhaid i mi ddyfarnu rhwng yr oedolion profiadol nad oedd yn hapus am bobl ifanc yn cnoi afalau a chreision mewn cyfarfodydd (go brin ei fod yn bechod cardinal!), a phobl ifanc nad oeddent yn gweld pwrpas agendâu mewn cyfarfodydd na'r angen i ddarparu tocynnau bws petaent yn adennill eu prisiau o arian cyhoeddus!

Mae'r sector gwirfoddol gwaith ieuentid (fel unrhyw 'sector gwirfoddol') yn crynhoi ystod amrywiol o strwythurau, syniadau a darpariaeth – sy'n rhychwantu darpariaeth ffydd a militaraid; clybiau bechgyn a merched gyda chanolfan draddodiadol ym Mhrydain ddiwydiannol a ffermwyr ifanc mewn ardaloedd gwledig; mentrau lleol bach, a chysylltiadau â sefydliadau ieuentid byd-eang; darpariaeth agored, gysylltiadol ac arfer mwy caeedig, mwy athrawiaethol. Yr hyn sy'n ei huno, mewn theori o leiaf, yw pum egwyddor a phwrpas gwaith ieuentid, a nodwyd yn gymharol ddiweddar gan CWVYS (2018) fel rhai addysgiadol, cyfranogol, grymusol, mynegiannol a chynhwysol. Dylid nodi, heblaw am yr olaf, mai'r rhain oedd yr egwyddorion a oedd yn sail i ddatganiad cwricwlwm Gwaith Ieuentid Cymru ym 1990. Fe'u hawliwyd hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2013. Yr hyn y dylid ei ddatlu, wrth gwrs, yw'r unfrydedd. yw'r unfrydedd ar draws y sectorau cynaleddig a gwirfoddol a chysondeb persbectif dros amser.

Cyfrannodd y CWVYS a oedd ar ei newydd wedd yng nghanol y 2000au at, gan ei arwain yn aml, lawer o'r ddadl am waith ieuentid yng Nghymru am y degawd nesaf. Mewn cyferbyniad, ar ôl cau Cyngor Ieuentid Cymru ym mis Mai 2006, cefais fy ymylu'n llwyr bron yng Nghymru, er – ar lefel Ewropeaidd – i mi ddechrau cyd-olygu ac ysgrifennu saith cyfrol Hanes Gwaith Ieuentid yn Ewrop (Saesneg yn unig). 2008-18) a gwasanaethu fel y rapporteur cyffredinol ar gyfer y tri Chonfensiwn Gwaith Ieuentid Ewropeaidd cyntaf (2010, 2015, 2020) sydd wedi arwain at sefydlu Agenda Gwaith Ieuentid Ewropeaidd.

Mae'n wir [...] fod fy nghefnogaeth i waith CWVYS, ar ôl dros 40 mlynedd a thrwy ystod o gyfnodau da a gwael, yn parhau'n gryf, wrth iddo geisio cysoni amrywiaeth gwaith ieuentid, trafod y tir cyffredin a chefnogi ffyrdd ymlaen mewn modd gweithredol – yr union bethau rwyf wedi ceisio'u gwneud ar hyd fy oes, gan gyfrannu ato mewn sawl rhan o'r byd, ledled Ewrop gyfan, ledled y DU ac, o'r pwys mwyaf i mi, yng Nghymru.

Yr Athro Howard Wiliamson CVO CBE FRSA FHEA – Athro gwadd nodedig ar draws nifer o sefydliadau rhyngwladol, Cymdeithasegydd, ymchwilydd ac Athro presennol Polisi Ieuentid Ewropeaidd ym Mhrifysgol De Cymru a Chadeirydd dros dro Cyngor Ieuentid Cymru rhwng 1992 – 2005.



1988 ● Yn 1988 rhoddodd y Ddeddf Diwygio Addysg ragor o reolaeth i rieni dros addysg eu plant, gan ychwanegu at rym llywodraeth ganolog a lleihau grym yr AALLau.

Erbyn diwedd yr 1980au, gallasai CWWYS, gyda chefnogaeth Adroddiad Arolwg da gan AEM a rhagor o fuddsoddiad, dyfu a chynnig lle i sefydliadau a phrosiectau ieuenctid eraill. Rhoddwyd llety i Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (WYWP), Canllaw Online, Cyswllt Ieuenctid Cymru a Fforwm Ieuenctid Cymru (WYF) yn swyddfeydd CWWYS ym Mhenarth.

Sefydlwyd WYWP yn wreiddiol am fod materion gwaith ieuenctid Cymru'n wahanol i rai Lloegr ac am fod ar y ddwy wlad fentrau annibynnol i ymdrin a'r materion hyn yn effeithiol.

Prosiect CWWYS oedd Canllaw Online yn y lle cyntaf, a ddarparai wybodaeth i bobl ifanc ar furf llyfryn a ddsbarthwyd yn 1985, 1986 a 1989, trwy ysgolion a chlybiau.

Tyfodd Cyswllt Ieuenctid Cymru o fenter gan CWWYS ar gam-drin sylweddau a daeth yn un o'r sefydliadau cyntaf i gael ei redeg gan ac ar gyfer pobl ifanc.

Darparai WYF gyfrwng i ddadlau materion o bwys i bobl ifanc gan bobl ifanc.

1992 ● Roedd llawer o wahanol agweddau ar waith ieuenctid yn ymffurfio, gan arwain at wasanaeth ieuenctid rhanedig a phawb yn cystadlu am yr un adnoddau a'r un cyllid, gyda pheth dyblygu gwaith. Cynhwysai'r WYWP Gydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC), y Cyngor Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymuned (CETYCW), y Canolfannau Ieuenctid Cenedlaethol (NYB) ac aeth CWWYS ati i uno'r elfennau hyn fel rhan o'i raglen waith, ond daeth corff penodedig yn ei le, sef Cyngor Ieuenctid Cymru yn 1992.

Collodd CWWYS rywfaint o annibyniaeth, er ei fod yn parhau i fod yn gorff elusennol ar wahân

Yn 1992 sefydlwyd Cyngor Ieuenctid Cymru (CIC).



Mae CWVYS wedi bod yn fy mywyd ers amser maith ac wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi; yn bersonol ac yn broffesiynol – ddim cweit am 75 mlynedd ond yn bendant dros 35! Cefais fy nghyflwyno i'r sefydliad am y tro cyntaf pan oedd wedi'i leoli ym Mhenarth ac roeddwn yn rhannu swyddfeydd â Phartneriaeth Gwaith Ieuencid Cymru (a ddaeth yn ddiweddarach yn Asiantaeth Ieuencid Cymru).

Ar y pryd roeddwn tua 16 oed ac yn gwirfoddoli gyda mudiad ieuencid o'r enw "Cyswllt Ieuencid Cymru" sef mudiad ieuencid dan arweiniad cyfoedion yn edrych ar atal camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn ogystal ag addysgu pobl ifanc ar HIV/AIDS.

Mae llais y sector gwaith ieuencid gwirfoddol wedi cael ei arwain gan CWVYS yn ystod cyfnod anodd a heriol iawn. Mae CWVYS bob amser wedi eirioli dros y sector a sicrhau bod eu haelodau'n cael eu clywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Maent wedi cyfrannu at ddyfodol gwaith ieuencid yng Nghymru; dyfodol lle gall pob person ifanc ffynnu a sector sydd â mynediad cyfartal at gyllid, adnoddau, hyfforddiant a chydabyddiaeth. Rwy'n gyffrous iawn am ddyfodol gwaith ieuencid yng Nghymru.

Diolch CWVYS am bopeth yr ydych yn ei wneud ar gyfer eich aelodau, gweithwyr ieuencid a phobl ifanc. Gan edrych ymlaen at 75 mlynedd lwyddiannus arall.

Sharon Lovell MBE – Cyn Is-Gadeirydd
Ymddiriedolwyr CWVYS, Prif Swyddog
Gweithredol NYAS Cymru a Chadeirydd Bwrdd
Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuencid



1992 ● Yn 1992 cyhoeddwyd 'Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn'.

1995 ● Yn 1995 gwnaeth y Ddeddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd i waith ieuencid gymryd sylw trwy sicrhau bod gan bobl ifanc anabl yr un hawl à phob person ifanc arall.

Hefyd yn 1995 roedd CWVYS a CIC yn dylanwadol iawn o ran sefydlu Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuencid ar gyfer Cymru am y tro cyntaf.

1996 ● Yn 1996 bu ad-drefnu pellach ar Lywodraeth Leol, y tro hwn i greu 22 o AALLau o'r 8 a sefydlwyd yn 1974.

Hefyd yn 1996 cyhoeddwyd Adroddiad Cullen. Fe'i hysgrifennwyd yn sgil y digwyddiadau trasig yn Dunblane, yn yr Alban. Awgrymodd y dylid gwirio cofnodion troseddol gweithwyr mewn ysgolion cyn cael gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Sefydlwyd y Swyddta Gofnodion Troseddau (CRB) fel ganlyniad.

1998 ● Ymestynnwyd y fenter i feysydd Gwaith ieuentid a'r sector gwirfoddol yn 1998.

Yn 1998 pasiwyd Deddf Llywodraeth Cymru a daeth y ddarpar Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ofyn y sector gwirfoddol trwy CGGC i sefydlu Compact y Sector Gwirfoddol. Daeth CWVYS i chwarae rhan uniongyrchol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

1999 ● Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999

2000 ● Wrth i'r 20fed ganrif ddirwyn i ben, collodd CWVYS eu uwch swyddog penodedig oherwydd ad-drefnu o fewn y CIC.

2001 ● Yn 2001 comisiynwyd swyddog polisi o'r CIC i baratoi adroddiad ar sefyllfa polisi ar ddyfodol CWVYS. Dadleuodd yr adroddiad o blaid penodi Prif Weithredwr.

Yn 2001 cyhoeddwyd 'Cymru - Y Wlad sy'n Dysgu' gyda'r nod o roi'r addysg a'r hyfforddiant gorau i bobl ifanc ac oedolion er mwyn sicrhau bod dysgu yn dod yn ffordd o fyw i bawb.

2002 ● Adolygwyd Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuentid Cymru yn 2002 ac adeiladodd ar Ymestyn Hawliau gan gefnogi pobl ifanc a gweithwyr ieuentid i wireddu'r 10 hawl hyn.

Cafodd CWVYS ei Brif Weithredwr ei hun unwaith eto ac adennill annibyniaeth.

Yn gynnar yn y 2000au daeth CWVYS i'r amlwg fel sefydliad annibynnol, gyda'i strwythur gwneud penderfyniadau ei hun, a'i staff ei hun, gan gynnwys ei Brif Weithredwr ei hun. Er mwyn gwneud hynny roedd yn ofynnol i'r sector ieuentid gwirfoddol yng Nghymru argyhoeddi Llywodraeth Cymru fod ganddi, ar y cyd, y weledigaeth a'r hunanhyder i helpu i ddarparu gwasanaethau ieuentid deinamig, priodol a pherthnasol i bobl ifanc Cymru. Mae'r ffydd a ddangosodd Llywodraeth Cymru yn CWVYS wedi profi i fod yn gywir a, heddiw, mae CWVYS yn helpu i sicrhau bod y sector ieuentid gwirfoddol yng Nghymru ar flaen y gad o ran darpariaeth Gwaith Ieuentid.

Wayne David MP - Llywydd CWVYS 2001-2021



Llongyfarchiadau i CWVYS a'i aelodaeth am 75 mlynedd o wasanaeth eithriadol i bobl ifanc Cymru!

Fel cyn-gadeirydd CWVYS rwy'n ymfalchio'n fawr yn y ffordd y mae gwaith ieuentid gwirfoddol yng Nghymru yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc bob dydd. Gwelsom yn ystod y pandemig pan oedd gwaith ieuentid yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi pobl ifanc drwy argyfwng go iawn. Mae'r cymorth hwnnw'n parhau a gwn fod pobl ifanc wir yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd gwaith ieuentid y mae aelodau CWVYS yn eu darparu.


Mae CWVYS ei hun wedi profi i fod yn sefydliad hynod wydn sydd bob amser wedi glynu'n gadarn wrth ei werthoedd a'i gredoau craidd. Bu cyfnodau da a chyfnodau anodd yn hanes CWVYS. Nid oedd yn bell yn ôl bod dyfodol CWVYS yn cael ei fygwth gan ostyngiad yn ei gyllid. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld y sefyllfa honno'n gwella a gwn fod CWVYS yn cael ei gweld yn fawr iawn fel rhan greiddiol o sector gwaith ieuentid bywiog yng Nghymru.

Gyda chreu'r Bwrdd Gweithredu newydd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru gyda mwy o gymorth ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru, mae dyfodol gwaith ieuentid yn edrych yn ddisglair. Bydd yn bwysig iawn i CWVYS a'i aelodaeth gyfrannu at lunio dyfodol gwasanaethau gwaith ieuentid yng Nghymru.

Mae'r 75 mlynedd diwethaf wedi bod yn wych ac ni welaf unrhyw reswm pam na all y 75 mlynedd nesaf fod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus.

Penblwydd Hapus CWVYS!

Keith Towler – Cyn Gomisiynydd Plant Cymru, Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuentid Dros Dro (2018-2022), Cadeirydd CWVYS (2015 – 2018) ac Is-lywydd CWVYS (2022-)




- 2004** ● Yn 2004 pasiwyd y Ddeddf Plant gan Senedd y DU.
- 2005** ● Yn 2005 sefydlwyd menter Llwybrau Dysgu 14-19, gan adeiladu ar yr agwedd ar bobl ifanc ym Mholisi'r Wlad sy'n Dysgu. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, dysgu sydd eisoes yn cael ei werthfawrogi o fewn y sector gwirfoddol.
- 2006** ● Yn 2006 cododd CWVYS ymwybyddiaeth o Lwybrau Dysgu gyda chynhadledd a thaflen ar gyfer y sector.

- 2006** ● Yn 2006 trosglwyddwyd staff WYA i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyd-drafododd CWVYS gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid i sefydlu ei swyddfeydd ei hun a chynyddu ei staff.
- Yn 2006 cyhoeddwyd 'Y Wlad sy'n Dysgu 2 - Gweledigaeth ar Waith', gan adeiladu ar yr adroddiad cyntaf.
- 2007** ● Yn 2007 cyhoeddwyd "Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru", gan ddarparu gweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.
- 2009** ● Yn 2009 penodwyd Paul Glaze yn Brif Weithredwr. Ar y pryd roedd 48 o aelod-sefydliadau wedi'u cofrestru gyda CWVYS.
- 2010** ● Ym mis Hydref 2010 sefydlwyd Grwpiau Rhanbarthol CWVYS.
- 2011** ● Yn 2011-12 roedd prosiect sector cyfan dan arweiniad CWVYS i ddylunio ysgrifennu a dosbarthu 10 Llawlyfr Methodoleg gwaith ieuenctid.
- 2012** ● O 2012-2014 arweiniodd prosiect Fframwaith Credydau Cymru at ddylunio, ysgrifennu a chyflwyno Marc Ansawdd CWVYS ynghyd â Rhaglen Anwytho CWVYS (Cam tuag at Waith Ieuenctid).
- Yn 2012 cyhoeddodd CWVYS Opsiynau ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru: papur sy'n achub y blaen ar ffurfio corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid.
- 2013** ● Bu CWVYS gynllunio, fformatio, cyd-ysgrifennu a dosbarthu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddor a Dibenion mewn cydweithrediad â Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru yn 2013, 2015 a 2018.
- O 2013-presennol ffurfiodd Grŵp Busnes CWVYS gysylltiadau â'r sector preifat ar ran pobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, gyda'r gwaith hwnnw'n parhau hyd heddiw.



Ychydig flynyddoedd yn ôl cyflwynwyd bathodyn i mi am drigain mlynedd o wasanaeth fel arweinydd oedolion yn y Geidiau. Yn ystod fy mlyneddodd cynnar fel arweinydd roeddwn yn arfer clywed am SCNVYO (Cynhadledd Sefydlog Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol) fel arfer mewn perthynas â digwyddiadau neu fentrau yng Nghymru. Roedd unrhyw ymwneud â threfnu pethau o'r fath ymhell uwchlaw fy ngraddfa gyflog. Maes o law newidiodd hyn i CWVYS a newidiodd y rheolau aelodaeth fel nad oedd pob aelod o reidrwydd yn sefydliadau cenedlaethol.



Wrth i mi ennill mwy o brofiad a gwneud gwahanol swyddi yn y Geidiaid roedd gen i fwy o brofiad o weithio gyda sefydliadau eraill ac yn y diwedd deuthum yn aelod o'r Pwyllgor Hyfforddi ac yna Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol CWWYS gan orffen fy nghyfnod fel cadeirydd y Pwyllgor Hyfforddi ac Is-Gadeirydd CWWYS.


Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS)

Pan ddaeth y ddeddfwriaeth angenrheidiol iawn hon i rym y bwriad yn wreiddiol oedd bod pob gweithiwr ieuentid yn talu am eu CRB. Roedd hyn yn broblem fawr i fudiadau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr a rhai o'r sefydliadau cenedlaethol mawr e.e. Roedd Ambiwlans Sant Ioan, y Sgowtiaid a'r Geidiaid bron yn gwbl ddiwynnol ar wirfoddolwyr. I mi, roedd y ffordd y daeth aelod-sefydliadau CWWYS ynghyd i lobïo'r llywodraeth yn llwyddiannus i'r gwiriadau hyn fod yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr ddangos gwerth y grŵp.

Roedd diddymu'r CIC yn gyfnod cythryblus wrth i Lywodraeth y Cynulliad benderfynu cymryd swyddogaethau Cyngor Ieuentid Cymru yn ôl yn fewnol. Ar y pryd roedd CWWYS yn gweithredu fel rhan o'r CIC ond ni allai'r Cynulliad ein hadfeddiannu gan ein bod yn elusen gofrestredig. Nid yw cyllid yn un o fy sgiliau cryfaf ond diolch byth roedd gennym aelodau gweithredol gyda'r sgiliau hynny a chawsom gymorth enfawr hefyd gan Wayne David AS ein Llywydd wrth drafod grant i'n cadw i fynd. Symudon ni ein swyddfeydd o Gaerffili i Fae Caerdydd ac yn fuan wedyn ymunodd Paul â ni. Diolch i'w waith caled, rydym wedi cynyddu ein haelodaeth yn aruthrol a hefyd wedi cynyddu ein hincwm gan ein bod wedi ymwneud â llawer o brosiectau.

Roedd dyfodiad Ymestyn Hawliau yn gyfnod gwych ar gyfer gweithio gyda sefydliadau eraill, yn wirfoddol ac awdurdod lleol

Sue Muxworthy – Cyn Ymddiriedolwr CWWYS
ac aelod o Grŵp y Llywyddion, sydd wedi
cefnogi gwaith CWWYS am lawer o flynyddoedd



- 2015** ● Yn 2015, cysylltodd Llywodraeth Cymru â CWWYS i gymryd aelodaeth Cymru o'r Asiantaeth Gwybodaeth a Chwrsela Ieuentid Ewropeaidd (ERYICA), roedd yn anrhydedd i ni fynychu eu Cynulliad Cyffredinol (GA) ym mis Ebrill 2015 yn Lwcsembwrg a chymryd rhan yn eu cynulliad 30 mlwyddiant a symposiwm yn Helsinki yn 2016 cyn i Lywodraeth Cymru gymryd aelodaeth yn ôl a'i ymestyn i holl sector ieuentid Cymru. Ers hynny, mae gweithwyr ieuentid o Gymru wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a digwyddiadau ERYICA, a chyflwynodd ERYICA yn y Gynhadledd Genedlaethol Gwaith Ieuentid yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2018.

2015 ● Ym mis Gorffennaf 2015 daeth Eva Reina, Cyfarwyddwr ERYICA, i Gaerdydd i fynychu ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, lle cyflwynodd drosolwg i'r gynulleidfa o waith ERYICA a'r manteision o fod yn rhan o'i rwydwaith.

Rhwng 2015 a 2018 roedd CWVYS yn ffodus i allu mynychu cyrsiau hyfforddi a chynadleddau wedi'u hariannu gyda sefydliadau Ewropeaidd a gynhaliwyd yn Armenia, Gwlad Belg, Lloegr, y Ffindir, yr Almaen, Hwngari, Lithwania, Lwcsembwrg, Gwlad Pwyl, yr Alban a Sweden, gan rwydweithio, rhannu a dysgu gyda chydweithwyr o lawer mwy o wledydd yn ogystal. Ers 2015 mae ein haelodau wedi gallu mynychu digwyddiadau a ariennir a chyrsiau hyfforddi yn Ffrainc, yr Eidal, Latfia, Rwmania, Sbaen a llawer mwy o wledydd.

2016 ● Rhwng 2016 a 2020 CWVYS oedd yr unig bartner Cymreig ar gyfer Eurodesk UK, buom yn mynychu cyfarfodydd Partneriaid yn y DU yn rheolaidd a chynadleddau yn Eurodesk Brussels Link. Roeddem yn ffodus i gymryd rhan yn nathliadau Pen-blwydd Eurodesk yn 30 yn 2020.

Ym mis Hydref 2016 cychwynnodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol (PPPHI) ar ei 'Ymchwiliad i Waith Ieuenctid'. Cyflwynodd CWVYS dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

Cyhoeddwyd adroddiad 'Ymchwiliad i Waith Ieuenctid' y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Rhagfyr 2016.

Hefyd ym mis Rhagfyr 2016 derbyniodd CWVYS lythyr gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei fwrriad i dynnu cymorth cyllid craidd yn ôl.


Rhwng 2016 a 2018 roedd CWVYS yn aelod gweithgar o Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid y Gweinidog.

Hefyd rhwng 2016-18 roedd CWVYS yn aelod o Grŵp Llywio Senedd Ieuenctid Cymru, dan gadeiryddiaeth y Llywydd.

2017 ● O fis Ebrill 2017, dechreuwyd cofrestru gweithwyr gwaith ieuenctid a chymorth ieuenctid drwy Gyngor y Gweithlu Addysg.

Ym mis Mai 2017 dathlodd CWVYS ei ben-blwydd yn 70 oed gyda digwyddiad a noddwyd gan AC yn y Senedd.

Cyhoeddwyd adroddiad 'Ein Dyfodol', gan Margaret Jervis MBE, ym mis Medi 2017 a bu'n ddylanwadol wrth lunio cyfeiriad gwaith ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol.



Rydym wedi dod yn bell ac mae cymaint wedi newid, yn enwedig gyda chau'r WYA - nid oedd y trawsnewid yn gadarnhaol i rai ar y pryd felly roedd llawer o rwystredigaeth a phryderon. Ond rhaid i mi ddweud bod hyn wedi rhoi rôl hanfodol i CWVYS, lle buom ni, y gwasanaethau ieuentid gwirfoddol, yn ymgyrchu'n drwyadl am yr effeithiau a gafodd hyn arnom ni a'r diffyg adnoddau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc. Yn enwedig y sefydliadau ieuentid cenedlaethol gwirfoddol sy'n chwarae rhan fawr ym mywydau pobl ifanc, yn anffodus i rai, mae eu gwasanaethau wedi lleihau ers hynny. Mae gan CWVYS rôl bwysig o hyd o ran ymgyrchu ac eirioli ar ran y sector ieuentid gwirfoddol i godi proffil y gwaith nad yw'n cael ei gydnabod yn aml. Rydym yn dal i gredu mai CWVYS yw ein llais cryfaf ac yn cynrychioli llawer ohonom, yn enwedig y grwpiau gwirfoddol bach nad oes ganddynt y gallu na'r adnoddau i gadw swm ar lefel wleidyddol.

Rwy'n gobeithio gyda'r dathliad hwn y daw cydnabyddiaeth o flynyddoedd o waith caled CWVYS ac ymrwymiad y staff a wnaeth wahaniaeth, gan ddarparu adnoddau a chefnogaeth i ni ar hyd y blynyddoedd, heb CWVYS, ni fyddai gennym grŵp cryf o bobl yn canu'r clodydd y gwasanaethau ieuentid gwirfoddol.

Cathie Robins Talbot – cyn Ymddiriedolwr CWVYS gyda degawdau o ymwneud â grwpiau ieuentid a chymunedol yn canolbwyntio ar y gymuned fyddar ac a nam ar eu clyw o fewn y sector ieuentid gwirfoddol.

Mae gweithio i CWVYS yn golygu llawer o bethau i mi – mae'r sefydliad a'r sector gwaith ieuentid gwirfoddol yn helpu i lunio a dylanwadu ar ddatblygiadau strategol i gefnogi gwell darpariaeth a chanlyniadau i bobl ifanc yn hanfodol bwysig, wrth gwrs, yn ogystal â'r cyfle i sicrhau bod y rhai 'allan yna' yn dod i adnabod a dysgu am fyd rhyfeddol gwaith ieuentid.

Nid ydym yn gweithio ar ein pennau ein hunain; mae hefyd yn bwysig cydnabod y partneriaethau, y cydweithrediaidau a'r cyfeillgarwch beirniadol rydym wedi'u datblygu dros y blynyddoedd gyda chymaint o sefydliadau, asiantaethau a swyddfeydd (llawer gormod i'w rhestru yma) sy'n chwarae rhan enfawr yn ein gwaith.

Paul Glaze – Prif Weithredwr Presennol CWVYS (ers 2009)

2018 ● Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad 'Gwerth Gwaith Ieuencid yng Nghymru' ym mis Gorffennaf 2018. Ffurfiwyd y Bwrdd Gwaith Ieuencid Dros Dro, dan gadeiryddiaeth Keith Towler, ym mis Hydref 2018.

Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddwyd 'Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion' diwygiedig gan CWWYS a PYOG Cymru.

2019 ● Lanswyd Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd Cymru gan Weinidog y Gymraeg a Addysg yn ystod Wythnos Gwaith Ieuencid ym mis Mehefin 2019.

Ym mis Hydref 2019, dechreuwyd y broses o roi Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru ar waith.

Ffurfiwyd Grwpiau Cyfranogiad Strategol (SPG) ym mis Rhagfyr 2019 – cynrychiolwyd tîm staff CWWYS ar bob SPG ac is-grŵp. Paul Glaze yw Cadeirydd yr is-grŵp Marchnata.

Ym mis Rhagfyr 2019 ffurfiwyd y Grŵp Rhanddeiliaid Gwaith Ieuencid Rhyngwladol gan CWWYS mewn ymateb i'r cyhoeddiad na fyddai'r DU yn ystyried prynu i mewn i fersiwn nesaf rhaglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd.

2020 ● Cwblhawyd cynlluniau gwaith y Grŵp Cyfranogiad Strategol ym mis Mawrth 2020.

Hefyd, ym mis Mawrth 2020 cydiodd pandemig Covid-19 yn y DU gan achosi cyfnod cloi ledled y wlad a newidiodd pethau am byth.

Ym mis Mehefin 2020 cyhoeddodd CWWYS adroddiad ar effaith y pandemig ar y Sector Ieuencid Gwirfoddol yn dilyn cyfnod o ymgynghori ag aelodau.

Ym mis Tachwedd 2020 arweiniodd CWWYS ar ail-ffurfio Grŵp Cynrychiolwyr Strategol ar y Cyd Gwaith Ieuencid (JSG): Ymddiriedolwyr CWWYS a PYOG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithio ar themâu allweddol. Mae'r JSG yn parhau i gyfarfod a datblygu ei raglen.

2021 ● Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd CWWYS ail adroddiad ar effaith y pandemig a'r cyfnodau cloi parhaus ar y Sector Ieuencid Gwirfoddol.

Hefyd ym mis Ionawr 2021 cyhoeddwyd adroddiad cychwynnol y Bwrdd Gwaith Ieuencid Dros Dro, a gwnaed argymhellion i'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg.

Ym mis Mai 2021 daeth etholiadau'r Senedd â Gweinidog newydd y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS, i ni.

2021 ● Cyn iddi adael y Senedd, cyhoeddodd y cyn Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Kirsty Williams Raglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol (ILEP) Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro 'Amser i Gyflawni' ym mis Medi 2021, yn cynnwys 14 o argymhellion.

Ym mis Medi 2021 penodwyd Helen Jones i Fwrdd Cyngchori ILEP ar ran y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol.

Cyhoeddwyd ymateb y Gweinidog i'r adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2021, ac roedd yn cynnwys ffurfio Bwrdd Gweithredu.



Rwy'n falch fy mod yn rhannu fy 75fed flwyddyn gyda CWWYS. Mae'r Sefydliad wedi darparu cefnogaeth ragorol i'r Sector Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol yng Nghymru ac mae'n gweithredu fel fforwm pwysig lle gall aelod-sefydliadau gymharu cyfleoedd a thrafod materion a phrofiadau. Mae'r Sefydliad wedi elwa o arweinyddiaeth ragorol ei Brif Swyddog Gweithredol Paul Glaze ers blynnyddoedd lawer a gyda chefnogaeth wrth gefn wych gan Helen, Sarah ac yn fwy diweddar Mandi. Mae'r Bwrdd bob amser wedi bod yn allweddol wrth sefydlu ac ennill cydnabyddiaeth i'r gwerth y mae'r sector yn ei roi i bobl ifanc ledled Cymru ac mae'r profiad a'r wybodaeth y mae Grŵp y Llywyddion yn eu darparu yn ychwanegiad pwysig at gynnig CWWYS.

Mwynheais fy nghyfnod fel Is-Gadeirydd ar y cyd â Sharon Lovell a dysgais gymaint o weithio ochr â phobl fel Keith Towler a Rob Norris yn ystod fy mlynnyddoedd fel aelod bwrdd. Roedd cyfarfodydd gyda Gweinidogion y bŵm iddynt gyda Paul hefyd yn brofiad gwerthfawr ac yn gromlin ddysgu! Rwy'n parhau i fwynhau fy rolau ar y Llywydd a Grwpiau Busnes ac yn mawr obeithio y gallaf barhau i gyfrannu.

Rwy'n credu bod gan CWWYS ddyfodol enfawr ac y gallaf edrych ymlaen at 75 mlynedd arall o gyfraniad eithriadol i'r sector. Daliwch ati gyda'r gwaith gwyh!

Joff Carroll OBE – Cyn Ymddiriedolwr ac Is-lywydd CWWYS, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Clybiau Bechgyn a Merched Cymru sydd newydd ymddeol ar ôl degawdau o wasanaeth





Bûm yn gysylltiedig gyda CWWYS rhwng 2004 a 2015, sef fy nghyfnod fel Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru.


Rwy'n cofio'n dda fy nghyfaill a'm cydweithiwr Dyfrig Morgan, a oedd hefyd yn un o ymddiriedolwyr CWWYS, yn fy siarsio i gefnogi CWWYS wrth i mi gychwyn ar fy swydd.

Roedd Dyfrig wedi deall, fel y des i wneud, bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, a'r buddion o berthyn i gymuned ehangach. Roedd yn awyddus iawn i sicrhau fod yr Urdd fel mudiad yn chwarae rhan lawn yn y bartneriaeth. Fe gytunais wrth gwrs gan ymuno â'r Bwrdd o ymddiriedolwyr am yr unarddeg mlynedd nesaf!

Trwy gyfarfodydd rheolaidd CWWYS, a thrwy drafod gyda fy nghyd-ymddiriedolwyr, y ces i fy addysgu am wreiddiau gwaith ieuencid, a dod i ddeall am y symudiad cenedlaethol yr oedd yr Urdd yn rhan ohono. Mae llawer mwy yn cysylltu mudiadau gwaith ieuencid gyda'i gilydd nag sydd yn eu gwahanu, er bod cystadlu am adnoddau yn anorfod weithiau!

Er fy mod wedi gadael y maes yn fy ngwaith bob dydd ers rhai blynyddoedd, pleser o'r mwyaf oedd bod yn aelod o'r Bwrdd Gwaith Ieuencid (dros dro) dros y cyfnod diwethaf, a gallu dod â phersbectif mudiadau ieuencid gwirfoddol i'r gwaith hwnnw. Bydd sicrhau dyfodol llewyrchus i waith ieuencid yng Nghymru yn agos at fy nghalon am byth – a diolch i CWWYS am yr ymdrechion parhaus i'w ddiogelu.

Efa Gruffudd Jones – Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru 2004 – 2015, aelod o'r Bwrdd Gwaith Ieuencid Dros Dro, Is-lywydd CWWYS a Phrif Weithredwr presennol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



2022 ● Ym mis Chwefror 2022 ailenwyd yr ILEP yn Taith ar ôl pleidlais gyhoeddus. Bu CWWYS yn llwyddiannus mewn cais i raglen Taith a arweiniodd at arwain ar bartneriaeth o fewn consortiwm sector ieuencid (gyda Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru a'r Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru) – fel Corff Trefnu'r Sector ar gyfer ieuencid.

Cyhoeddwyd yr hysbyseb penodiad cyhoeddus ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Gweithredu ym mis Chwefror 2022.

2022 ● Hefyd ym mis Chwefror 2022 penodwyd Paul Glaze yn Gadeirydd y Grŵp Cyngtori ar Warant Pobl Ifanc.

Penodwyd Sharon Lovell MBE yn Gadeirydd y Bwrdd Gweithredu Strategol Gwaith Ieuenctid ym mis Mehefin 2022.

Ym mis Mehefin 2022 roedd cais CWVYS i weithredu fel deiliad arian ar gyfer rhaglen 'Haf o Hwyl' Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Fe wnaeth aelod-sefydliadau CWVYS elwa ar werth £200,000 o arian grant.

Ym mis Medi 2022 roedd 136 o aelod-sefydliadau wedi'u cofrestru gyda CWVYS.

Yn ystod hydref 2022 disgwylir i Fwrdd Gweithredu llawn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid ddechrau ar ei waith.



Ers 75 mlynedd mae cymaint o sefydliadau wedi dod at ei gilydd o fewn fframwaith cydweithredol i gefnogi ei gilydd a darparu cyfleoedd i gynifer o bobl ifanc. Mae CWVYS wedi bod yn llais a ffocws hanfodol i'r sector. Mae yna ddigonedd o enghreifftiau: gweithio gyda'r sector awdurdodau lleol drwy'r Grŵp Strategol ar y Cyd, cydlynu datblygiad y Datganiad Cwricwlwm i Gymru, datblygu a gweithredu'r Marc Ansawdd, cyflwyno cyfnewid datblygiad proffesiynol, mapio'r sector, darparu gwybodaeth bwysig, adnoddau, ymchwil a datblygu, a bod yn ffocws ar gyfer datblygu polisi a dadlau.

Wrth edrych yn ôl at fy ymwneud cyntaf â CWVYS bron i ugain mlynedd yn ôl, rwy'n gweld y cynnydd aruthrol sydd wedi'i wneud ar lefel strategol ar draws y sector, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chefnogaeth gryfach Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, ac, yn bwysicaf oll, gyda chyfraniad enfawr cymaint o bobl unigol ac aelodau CWVYS. A dyna, yn y diwedd, sy'n aros gyda mi o fy ymwneud â'r sector a gyda sefydliad mor bwysig â CWVYS.

Rob Norris – Cyn Gadeirydd CWVYS rhwng 2005 – 2014





Dechreuodd fy ymwneud â CWVYS a phan gefais wahoddiad i fod yn gynrychiolydd Sant Ioan ar Bwyllgor Gwaith CWVYS. Drwy gydol fy ngyrfa hir gyda'r sefydliad hwnnw, roeddwn wedi bod yn ymwneud â hyfforddi a chefnogi Cadetiaid Ambiwlans ac felly roeddwn yn ymwybodol o bwysigrwydd gwaith o'r fath. Rhoddodd cysylltiad â CWVYS bersbectif ehangach i mi ar y pwnc: mae bob amser yn ddefnyddiol dysgu sut mae eraill yn ymdrin â phwnc ac nid oes dim yn bwysicach na pharatoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolion tra ar yr un pryd yn cael cyfleoedd i gael hwyl a dysgu sgiliau sy'n cyfoethogi bywyd.

Deuthum yn ymwybodol y dylai'r gwaith rhagorol a wnaed gan CWVYS i ddod â chymaint o sefydliadau ieuencid hanfodol ynghyd fod yn hysbys i gynulleidfa ehangach. Yn wir, i Gyflogwyr sydd â diddordeb personol mewn denu i'w cwmnïau y rhai sydd wedi cael y profiad o gael eu herio, eu hymestyn, ac sydd wedi cael y cyfle i ymarfer sgiliau arwain. Felly dechreuodd y syniad o sefydlu 'Grŵp Cymorth Busnes' sydd bellach â chyfle i sefydlu partneriaeth arwyddocaol gydag ystod eang o Gyflogwyr er budd pawb.

Ni fyddai'r syniad hwn erioed wedi esblygu a datblygu oni bai am ymrwymiad a brwdfrydedd llwyr staff CWVYS sydd i bob golwg yn gallu gweithio wyth diwrnod yr wythnos tra'n dal i gadw gwên ar eu hwynebau.

Credaf, o dan arweiniad deinamig holl Bwyllgorau CWVYS, y daw'r enw'n arwyddocaol mewn meysydd lle na fu ymwybyddiaeth o'i waith rhagorol yn y gorffennol ac rwy'n ddiolchgar am hynny.

Duncan Cantlay – Cyn Ymddiriedolwr ac Is-lywydd CWVYS



CWVYS

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau
Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
Uned 29
Tŷ Menter
127 - 129 Stryd Bute
Caerdydd
CF10 5LE

 029 2047 3498

 Helen@cwvys.org.uk

 @CWVYS

 [cwvys_cymru](https://www.instagram.com/cwvys_cymru)